Cyngor Cymuned Penmynydd a Star *Community Council*

Diweddariad am y cae chwarae

- Mae'r coed yn y cae chwarae yn dioddef o glefyd gwywiad yr onnen (ash dieback). Cafwyd cyngor gan Mr Ed Henderson (Uwch Swyddog Tirlunio a Choed Cyngor Ynys Môn) ac, yn anffodus, ar ôl ymweliadau niferus â'r safle penderfynwyd bod rhaid eu torri i lawr yn gyfan gwbl oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch. Er mwyn sicrhau bod y cae ar gael dros yr haf penderfynwyd gwneud hyn ar fyrder. 'Rydym wedi cysylltu â chwmni lleol i wneud y gwaith a mi fydd y cae chwarae ar gau nes bod y gwaith yn cael ei gwblhau. Y gobaith yw na fydd y cae ar gau'n hir a bydd mwy o goed yn cael eu plannu yn lle'r rhai sy'n cael eu torri lawr.

- 'Rydym hefyd wedi sylwi nad yw'r cwmni sy'n torri'r glaswellt wedi torri'r holl laswellt yn y cae, yn enwedig ar hyd yr ochrau. Bydd Clerc y Cyngor yn cysylltu gyda'r cwmni er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau i safon derbyniol.

- Mae'r Clerc hefyd wrthi'n ddygn yn chwilio am fwy o grantiau er mwyn datblygu'r cyfleusterau yno. Cyngor Cymuned Penmynydd a Star yw'r Cyngor Cymuned lleiaf ar yr Ynys felly nid oes llawer o arian yn ein coffrau, yn enwedig o gofio nad ydym wedi cynyddu'r taliad lleol i'r Dreth Cyngor y flwyddyn hon oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae'r arian a glustnodwyd gan y Cyngor Cymuned i ddatblygu mwy ar y cae chwarae yn gorfod cael ei ddefnyddio i dalu am y gwaith torri coed. Oni bai ein bod ni fel cymuned yn mynd ati i gasglu'r arian i ddatblygu'r safle, yn darganfod miliwnydd lleol hael neu'n codi'r taliad lleol i'r Dreth Cyngor yn afresymol o uchel, yr unig ffordd o ddatblygu'r cae chwarae yw trwy wneud cais am grantiau.

Goryrru

Er mwyn ceisio lleihau'r goryrru trwy Penmynydd a Star penderfynwyd ymuno â'r cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol lle mae aelodau cymunedau, mewn partneriaeth â'r heddlu, yn defnyddio dyfeisiau datgelu i fonitro cyflymder cerbydau yn lleol. Bydd angen gwirfoddolwyr ar gyfer y cynllun a mi fydd mwy o wybodaeth am hyn yn ymddangos yn fuan ar dudalen Facebook y Cyngor: "Cyngor Cymuned Penmynydd & Star Community Council"

Cofiwch, os oes gennych unrhyw ymholiad perthnasol cysylltwch â'r Cyngor Cymuned drwy yrru neges ar dudalen Facebook y Cyngor neu drwy ebostio'r Clerc (penmynyddcc@gmail.com) Mae mwy o wybodaeth, gan gynnwys enwau eich cynrychiolwyr lleol, i'w weld yma http://www.penmynydd.org/

Cyngor Cymuned Penmynydd a Star *Community Council*

Playing field update

- *Unfortunately, the trees in the playing field are suffering from ash dieback disease. We've contacted Mr Ed Henderson for advice (Ynys Môn Council's Senior Landscaping and Tree Officer) and after numerous site visits it was unfortunately decided that, due to health and safety reasons, all the trees had to be cut down. In order to ensure that the playing field is available over the summer it was decided to do this post haste. We have contacted a local company to do the work and the playing field will be closed until this work is completed. The hope is that it won't be closed for too long and eventually more trees will be planted to replace those that will have to be cut down.*

- *We have also noticed that the company that cuts the grass has not cut all the grass in the field, especially on the periphery. The Clerk of the Council will contact the company to ensure that the work is completed to an acceptable standard.*

- *The Clerk is also actively looking for grants in order to develop the playing field facilities. Penmynydd and Star Community Council is the smallest Community Council on Ynys Môn and our budget is small, especially bearing in mind that we have not increased the local Council Tax payment this year due to the cost of living crisis. The money earmarked by the Community Council for further developing the playing field will now have to be used to pay the bill for cutting down the trees. Unless we as a community actively collect the money to develop the site, raise the local Council Tax payment to an unreasonably high level or find a local benefactor, the only way to develop the playing field is through grants.*

Speeding

In order to try to reduce speeding through Penmynydd and Star we have decided to join the Community Speedwatch scheme where community members, in partnership with the police, use detection devices to monitor vehicle speeds locally. Volunteers will be needed for the scheme and more information about this will soon be available on the Council's Facebook page: "Cyngor Cymuned Penmynydd & Star Community Council"

Remember, if you have any relevant queries please contact the Community Council by sending a message on the Council's Facebook page or by emailing the Clerk (penmynyddcc@gmail.com). More information, including the names of your local representatives, can be found on our website.
http://www.penmynydd.org/